

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

26ain Chwefror 2024

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD nesaf CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher y 6ed o Fawrth am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gyfarfu ar y 24ain Ionawr – gweler yn atodol.
4. **Materion yn codi,**
 - a) Materion Priffyrdd a Chefnffyrdd.
 - b) Gwerthiant Eglwys Llanydawddwy – derbyn y diweddaraf .
 - c) Cwyn am 2 garafan static – Min y Goedwig, Aberangell – derbyn y diweddaraf
 - d) Pwyllgor yr Hen Fynwent – derbyn y diweddaraf.
 - e) Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas – *adroddiad o'r cyfarfod ar y safle bore Mercher 7fed Chwefror.*

f) Cais am diffibrilator I Lanymawddwy.

g) Stad Haulfryn, Aberangell / maes parcio Lawnt y Plas – a gohebiaeth gan Adra

h) Hyfforddiant Cyngorwyr

5. Materion Cynllunio

NP5/74/464F – Newidiadau I gwrs 'Red Bull Hardline (Mountain Bike) yn cynnwys nodweddion neidio a chwympo newydd – Tir yn Graig Wen, Dinas Mawddwy. (*wedi ei ddanfôn allan, ac ymatebwyd*)

6. Materion Cyllid.

a) Nodi balansau cyfrifon, a'r canlynol;

- Anfoneb EW Owen a'i chwmni - gwaith PAYE
- Cydnabyddiaeth chwarter olaf y Clerc a chostau fel y cytunwyd ynghyd ag HMRC

b) Ceisiadau am arian

- Clybiau Ffermwyr Ieuaic Meirionnydd

c) Cadarnhau penodiad archwilydd mewnol, a materion archwiliad 2023-24.

7. Gohebiaeth

- Cynllun Rhannu Cartref Cyngor Gwynedd.

8. Unrhyw fater arall

- Mynwent Dinas Mawddwy